**PROSIECT ARGAE POLIHALI**

Darllenwch y wybodaeth ym Mhecyn Dolen Cymru Lesotho: Argaeau yng Nghymru a Lesotho

Meddyliwch am draweffaith adeiladu argaeau ar gymunedau lleol yng Nghymru a Lesotho.

**Gan ddefnyddio Argae Polihali fel enghraifft, darllenwch y datganiadau isod yn ofalus a'u gosod yn y drefn rwyt ti'n feddwl sydd <u>fwyaf pwysig</u>**

Er enghraifft, yn y golofn ar yr ochr dde, ysgrifennwch y rhif "1" nesaf at y broblem rydych chi'n feddwl sydd fwyaf pwysig, a'r rhif "10" yn erbyn y broblem rwyt ti'n feddwl sydd leiaf pwysig.

| **POBL** | | |
|---|---|---|
| **1** | Bydd safleoedd claddu hynafiaid ar goll am byth. | |
| **2** | Bydd iawndal yn cael ei dalu i deuluoedd sy'n colli eu cartrefi. | |
| **3** | Perygl o gynnydd mewn mân droseddau. | |
| **4** | Bydd pysgota pysgod ar lyn y gronfa yn helpu i wella deiet. | |
| **5** | Gallai diogelwch bwyd gael ei effeithio drwy golli caeau ar lannau'r afon a lleihad yng ngnydau'r cynhaeaf. | |
| **6** | Dylai pobl leol gael caniatâd i gyfrannu at ddatblygiad cymunedol y dyfodol ynghylch iechyd, lles a'r gwasanaethau addysg. | |
| **7** | Gall newidiadau posib yn nylanwad arweinwyr lleol effeithio ar sefydlogrwydd cymdeithasol. | |
| **8** | Mae cynnydd yn y tabl dŵr yn golygu colli tir pori'r gaeaf ac adeiladau ansefydlog. | |
| **9** | Mae'n bosib y gall problemau cymdeithasol godi o bentrefi llawn. | |
| **10** | Bydd pobl ifanc yn gorfod gadael i chwilio am waith a bydd teuluoedd yn cael eu gwahanu. | |

| **BYWOLIAETH** | | |
|---|---|---|
| **1** | Bydd ffyrdd newydd wedi'u hadeiladu'n dda yn dod yn lle ffyrdd traws gwlad hanesyddol. | |
| **2** | Mae'n bosib y bydd datblygiad o ganlyniad i'r Argae arwain at lai o bobl dlawd. | |
| **3** | Bydd cyfleoedd ar gyfer eco-dwristiaeth yn cynyddu ar hyd yr ardal. | |
| **4** | Bydd entrepreneuriaid lleol yn cael caniatâd i greu Ffermydd Pysgod ar lyn y gronfa. | |
| **5** | Bydd mwy o deuluoedd yn gallu fforddio anfon eu plant i'r ysgol uwchradd am addysg well a dyfodol diogel. | |
| **6** | Ni fydd adnoddau naturiol megis gwair ar gyfer toeau a gwehyddu i'w plethu yn tyfu'n lleol ar lannau afon Senqu yn hawdd i'w canfod. | |
| **7** | Bydd technoleg newydd yn gwella cyfathrebu ar gyfer teuluoedd a busnesau. | |
| **8** | Gall busnesau teuluol bychain megis siopau a llefydd aros ffynnu. | |
| **9** | Mae'n bosib y byd sgiliau adeiladu traddodiadol yn cael eu colli wrth i bobl fudo i'r Tiroedd Is. | |
| **10** | Mae'n bosib y bydd pellteroedd cerdded o bentrefi i'r dref farchnad a gwasanaethau eraill yn hirach nag yw ar hyn o bryd. | |

| **YR AMGYLCHEDD** | | |
|---|---|---|
| **1** | Dylai Gardd Fotaneg gael ei sefydlu er mwyn gwarchod planhigion meddygol prin. | |
| **2** | Bydd adeiladu'r Argae a lonydd newydd yn achosi llygredd ac yn niweidio'r dirwedd. | |
| **3** | Bydd Adeiladu'r Argae yn amharu ar y we fwyd naturiol. | |
| **4** | Bydd yn rhaid i wastraff dynol o bentrefi sydd wedi gorboblogi gael ei reoli'n ofalus er mwyn atal problemau iechyd a heintio dŵr yfed. | |
| **5** | Mae pobl leol wedi cael eu gwneud yn ymwybodol o draweffaith yr Argae ar yr amgylchedd. | |
| **6** | Yr angen am gydbwyso galw dynol am ddatblygiad gydag amddiffyn yr amgylchedd naturiol. | |

| | | |
|---|---|---|
| **7** | Mae Prosiect Argae Polihali yn gyfle gwych i ysgolion godi ymwybyddiaeth o amgylchedd unigryw Mokhotlong. | |
| **8** | Ailgylchu neu waredu gwastraff a gynhyrchwyd gan weithlu adeiladu mawr. | |
| **9** | Bydd tir âr a thir pori yn cael ei golli am byth, a gallai gor-bori gan dda byw achosi i'r pridd erydu ac o bosib llifogydd ar y tir uwch ben y tabl dŵr. | |
| **10** | Bydd yr ibis moel yn colli rhan o'i safleoedd nythu ar ochr clogwyn a bydd planhigion ac anifeiliaid eraill sydd mewn perygl hefyd yn colli cynefinoedd. | |